**Dyddiad cyhoeddi** Tachwedd 2012

**Gwybodaeth i'r cyhoedd**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin papilomatosis anadlol drwy ddefnyddio ynni ar dymheredd isel

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ynghylch pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio ynni trydanol ar dymheredd isel yn y GIG i drin pobl â phapilomatosis anadlol. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt (neu yn achos plant, eu rhieni neu eu gofalwyr) fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio papilomatosis anadlol na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhai cwestiynau efallai y byddwch am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am ddefnyddio ynni trydanol ar dymheredd isel i drin papilomatosis anadlol, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf (neu ei riant neu ofalwr) gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r ddogfen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf (neu ei deulu neu ei ofalwyr) fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb sy'n cael y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt ar ôl hynny i gronfa ddata yn y Gofrestr Ryngwladol o Achosion o Stenosis yn y Llwybr Anadlu http://www.airwayregistry.net) er mwyn gallu cadarnhau pa mor ddiogel yw'r driniaeth a/neu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

Mae NICE wedi annog gwaith ymchwil pellach i'r defnydd o ynni trydanol ar dymheredd isel i drin papilomatosis anadlol, gan gynnwys manylion ynghylch ai hon oedd y brif driniaeth a roddwyd neu ai triniaeth ychwanegol ydoedd, a effeithiodd ar lais y claf ac a oedd angen traceostomi (llawdriniaeth i osod tiwb i mewn i'r bibell wynt i helpu'r unigolyn i anadlu) ar ôl y driniaeth. Dylai'r ymchwil hefyd gofnodi a yw'r claf yn ailwaelu, gan gynnwys faint o amser ar ôl y driniaeth y digwyddodd hyn, ym mha le yn y gwddf neu'r llwybrau anadlu y digwyddodd hyn, a goroesiad yn y tymor hwy.

Efallai y bydd NICE yn adolygu'r driniaeth os bydd rhagor o dystiolaeth ar gael.

## Trin papilomatosis anadlol drwy ddefnyddio ynni ar dymheredd isel

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer papilomatosis anadlol. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i'ch plentyn a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘abladiad radioamledd oer ar gyfer papilomatosis anadlol’. Mae'r gair 'abladiad' yn golygu tynnu neu ddileu.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae papilomatosis anadlol yn gyflwr lle mae tyfiannau dafadennog nad ydynt yn ganser o'r enw papilomau yn datblygu ac yn mynd yn fwy yn y gwddf, y laryncs a'r tracea (y prif lwybr anadlu). Caiff ei achosi gan haint â feirws papiloma dynol, a gall effeithio ar blant ac oedolion. Gall y papilomau achosi crygni neu lais cryg, a pheri i'r llwybrau anadlu gulhau gan achosi anawsterau anadlu. Er bod modd lleihau neu ddileu papilomau unigol, gall y cyflwr ei hun barhau ac mae tyfiannau yn dueddol o ddychwelyd neu ddatblygu mewn mannau newydd ar ôl triniaeth.

Y brif driniaeth a gynigir yw llawdriniaeth i leihau'r tyfiannau neu eu tynnu. Mae'r mathau o lawdriniaeth a ddefnyddir yn cynnwys tynnu'r tyfiannau drwy eu torri â llafn lawfeddygol neu laser, neu drwy ddefnyddio triniaethau eraill sy'n cynnwys gwres neu rewi i ddinistrio'r tyfiannau. Gellir hefyd ddefnyddio cyffuriau gwrthfeirysol i geisio atal y papilomau rhag dychwelyd neu i arafu eu twf. Caiff y rhain eu chwistrellu i mewn i'r man lle y tynnwyd y tyfiannau neu cânt eu rhoi fel triniaeth systemig (sy'n effeithio ar y corff cyfan). Os bydd tyfiannau yn y llwybrau anadlu yn amharu ar allu claf i anadlu efallai y bydd angen iddo gael traceostomi (twll drwy'r gwddf i mewn i'r bibell wynt) fel y gall anadlu'n haws.

Mae abladiad radioamledd oer yn ceisio toddi neu leihau'r papiloma drwy ddefnyddio cerrynt trydanol. Mae'r driniaeth yn cynhyrchu llai o

wres na rhai triniaethau eraill, felly efallai y bydd llai o niwed i'r feinwe iach o amgylch papilomau ac efallai y bydd y claf yn cael llai o boen wedyn. Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Gan ddefnyddio tiwb anhyblyg â chamera i weld y man, mae'r llawfeddyg yn gosod stiliwr drwy'r geg neu'r trwyn, ac i lawr y gwddf i mewn i'r mannau lle ceir papilomau. Pan fydd blaen y stiliwr yn cyffwrdd â thyfiant unigol, mae cerrynt trydanol yn mynd i mewn i'r tyfiant, gan ddinistrio'r feinwe. Caiff y broses hon ei hailadrodd ar gyfer pob papiloma. Wedyn, gellir rhoi steroidau i leihau'r llid, a gellir rhoi gwrthfiotigau i leihau'r risg o haint.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi neu fy mhlentyn?

Os yw eich meddyg wedi cynnig triniaeth gydag ynni trydanol ar dymheredd isel ar gyfer papilomatosis anadlol i chi neu'ch plentyn, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a’r risgiau’n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y ddogfen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl i mi neu fy mhlentyn)?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi (neu fy mhlentyn)?  A allai cael y driniaeth wneud i'm plentyn deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf i (neu fy mhlentyn) ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf i (neu fy mhlentyn) yn cael y driniaeth?

*Gallech benderfynu (neu benderfynu ar ran eich plentyn) cael y driniaeth hon, cael triniaethwahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Ystyriodd tair astudiaeth p'un a oedd y driniaeth yn atal y cyflwr rhag dychwelyd. Mewn un o'r astudiaethau hyn, cafodd papiloma a ddychwelodd bedwar mis ar ôl y driniaeth mewn un oedolyn allan o 3 a gafodd y driniaeth ei dynnu'n llwyddiannus pan gynhaliwyd y driniaeth eto. Edrychodd ail astudiaeth ar ddau oedolyn yr oedd eu papilomau anadlol wedi dychwelyd dro ar ôl tro ers plentyndod ac a oedd wedi cael triniaeth laser carbon deuocsid sawl gwaith. Cafodd un ohonynt y driniaeth ynghyd â thriniaeth laser carbon deuocsid, a chafodd y llall y driniaeth ar ei phen ei hun. Yn achos y ddau glaf, dychwelodd y clefyd, ond yn arafach na chynt. Nododd trydedd astudiaeth nad oedd y papilomau wedi tyfu'n ôl 18 mis yn ddiweddarach pan ddefnyddiwyd y driniaeth i drin papiloma newydd mawr yng ngwddf plentyn.

Ystyriodd un astudiaeth p'un a oedd angen llai o driniaeth ar glaf yn gyffredinol ar ôl cael triniaeth abladiad radioamledd oer. Cafodd chwe oedolyn â phapilomau difrifol yn y gwddf a'r llwybrau anadlu a oedd yn dychwelyd dro ar ôl tro driniaeth laser carbon deuocsid am ddwy flynedd ac wedyn driniaeth abladiad radioamledd oer am ddwy flynedd. Roedd angen llai o driniaeth ar bob un o'r cleifion ar ôl iddynt ddechrau cael triniaeth abladiad radioamledd oer.

Cyfeiriodd dwy astudiaeth at ansawdd y llais ar ôl y driniaeth. Mewn un astudiaeth o ddau oedolyn â phapilomau mynych dros ardal eang yn y gwddf, roedd ansawdd llais un claf a oedd wedi bod yn gryg iawn ac a oedd yn colli ei anadl ar ôl ymdrech gorfforol cyn y driniaeth yn dda bellach a ddeufis ar ôl y driniaeth nid oedd yn colli ei anadl. Ni roddwyd

unrhyw wybodaeth am y claf arall yn yr astudiaeth honno. Yn yr ail astudiaeth, roedd ansawdd llais plentyn a oedd wedi cael y driniaeth am dyfiant yn y gwddf wedi gwella'n sylweddol ar ôl cael y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nod triniaeth abladiad radioamledd oer yw lleihau nifer y triniaethau sydd eu hangen i sicrhau bod llwybr anadlu claf yn ddigon clir iddynt gael anadlu'n ddiogel a rhoi ansawdd llais da i gleifion.

## Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 18 o gleifion a gafodd y driniaeth, roedd gan bob un fân greithiau yn y man lle y tynnwyd y tyfiannau. Mewn un o'r cleifion hyn ymddangosodd tyfiannau newydd mewn man gwahanol bedwar mis ar ôl y driniaeth. Defnyddiwyd y driniaeth i drin y tyfiannau newydd hyn ac nid oeddent wedi dychwelyd ddeufis yn ddiweddarach.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod problemau posibl yn cynnwys creithiau ar y gwddf a'r llwybrau anadlu (a all beri i'r llwybr anadl gulhau ac achosi ansawdd llais gwael), a gwaedu. Dywedwyd hefyd efallai na fydd y driniaeth yn lleihau maint na nifer y tyfiannau yn ddigonol i sicrhau y gall cleifion anadlu'n ddiogel, ac y gall achosi i'r feirws ymledu.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i’r GIG ar atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol gwahanol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy’n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy’n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae’n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance.*

*Mae'r ddogfen yn ymwneud ag 'abladiad radioamledd oer ar gyfer papilomatosis anadlol’. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn http://guidance.nice.org.uk/HTG295*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r ddogfen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8680-4
N2882 November 2012

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2012. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.